# CYSAG/CYS

# Cyngor Bwrdeistref Sirol

# Pen-y-bont ar Ogwr

## Canllawiau i ymarferwyr sy'n gwahodd siaradwyr gwadd/darparwyr allanol i ysgolion, ac ar gyfer cynllunio ymweliadau allanol ysgolion yn rhan o'u cwricwlwm crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM)

**(This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg)**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagair – Cadeirydd CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr** | **2** |
| **Adran Un: Cyflwyniad** | **3** |
| **Adran Dau: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) 'Gwrthrychol, Beirniadol a Phlwraliaethol'** | **3** |
| **Adran Tri: Cwricwlwm a Darparwyr Allanol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)** | **3** |
| **Adran 4: Ymwelwyr â'r Ysgol ar Gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)** | **4** |
| **Adran 5: Paratoi ar Gyfer Ymwelwyr â'r Ysgol** | **4** |
| **Adran Chwech: Ymweliadau â Lleoedd/Adeiladau/Cymunedau Allanol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg** | **6** |
| **Adran Saith: Cysylltiadau rhanbarthol ar gyfer datblygu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg** | **9** |
| **Adran Wyth: Rhestr Wirio Gryno** | **12** |

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Chlerc CYSAG/CYS, e-bost: **edsu@bridgend.gov.uk**

Mae cyflwyno a gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru wedi creu nifer o heriau, yn anad dim dod o hyd i adnoddau i gefnogi addysgu CGM yn ogystal â phynciau eraill. Mae angen cronfa o adnoddau ar strwythur

newydd y cwricwlwm i'w gefnogi ac i sicrhau bod y pedwar diben a ragwelir gan Donaldson yn cael eu bodloni. Un o'r adnoddau gorau ar gyfer unrhyw bwnc, wrth gwrs, yw adnodd dynol, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Nid yw dod o hyd i adnoddau dynol perthnasol a chyfredol bob amser yn hawdd a gellir treulio llawer iawn o amser yn chwilio amdanynt. Wrth gwrs, mae angen bod yn ymwybodol hefyd o'r angen i ddiogelu wrth wahodd ymwelwyr i amgylchedd yr ysgol. Bydd rhannu'r math o wybodaeth y mae'r ddogfen hon yn ei chynnwys yn arbed llawer iawn o waith gan lawer iawn o athrawon sy'n ceisio gwneud eu gwersi'n berthnasol ac yn ddiddorol yn ogystal â'r rhai sy'n gyfrifol am drefnu a chynllunio'r weithred ddyddiol o addoli ar y cyd (GDAC). Rwy'n siŵr felly y bydd athrawon ac eraill sy'n ymwneud â chyflwyno gwersi, GDAC a'r gwahoddiad i siaradwyr allanol yn ddiolchgar iawn am y canllawiau atodol.

Nid yw bob amser yn hawdd dod o hyd i siaradwyr addas i ddod i mewn i'n hysgolion a fydd yn mynd i'r afael â'n dysgwyr ar faterion CGM neu gymryd rhan yn y weithred ddyddiol o addoli ar y cyd wrth ystyried yr angen i fod yn Wrthrychol, yn Feirniadol ac yn Blwraliaethol. Yn aml iawn yn y gorffennol mae llawer o siaradwyr wedi bod eisiau defnyddio'r cyfle i ymweld â'n hysgol i gyfarch ein dysgwyr o un safbwynt penodol, ac er nad yw hynny bob amser yn beth drwg rhaid cymryd gofal i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael cyfle i glywed am safbwynt gwahanol. Gobeithio y bydd yr wybodaeth yn y ddogfen ganllaw hon yn galluogi'r rhai sy'n gyfrifol am wahodd siaradwyr allanol i ysgolion i sicrhau bod gan ein dysgwyr y cydbwysedd hwnnw sydd mor hanfodol bwysig os ydynt am gael ffurfio eu barn eu hunain am unrhyw faterion a addysgir o dan faner CGM.

Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn ddiolchgar iawn i Gynghorydd Cyswllt y Consortiwm ar gyfer CGM a CYSAG/CYS, Donna Graves, am y gwaith enfawr a wnaed i greu'r ddogfen hon sydd nid yn unig yn darparu arweiniad hanfodol ond hefyd yn gronfa ddefnyddiol iawn o adnoddau ynghylch cysylltiadau â siaradwyr a mannau addoli y gallem fod eisiau i ddysgwyr ymweld â nhw. Mae CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr yn diolch yn fawr iddi hefyd am y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud ar y ddogfen hon. Rwy'n gobeithio y byddwch yn ei hystyried yn ddefnyddiol ac yn ei defnyddio er budd ein dysgwyr.

Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Byddai unrhyw adnodd rydych chi'n dod ar ei draws ac yn teimlo y byddai o werth pe bai wedi'i gynnwys yn y rhifyn nesaf yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Anfonwch unrhyw wybodaeth o'r fath at Glerc CYSAG/CYS: edsu@bridgend.gov.uk

Diolch.
Y Parchedig Ganon Edward Evans
Cadeirydd CYSAG/CYS Pen-y-bont ar Ogwr

**Adran Un: Cyflwyniad**

Yng Nghanllawiau CGM Cwricwlwm i Gymru ar Hwb mae gwybodaeth am fanteision darparu profiadau dysgu cyfoethog ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM). Mae'r canllawiau hyn yn awgrymu:

- Ymgysylltu â chymunedau crefyddol ac anghrefyddol lleol.
- Profi a myfyrio ar ddirgelwch, parchusrwydd a rhyfeddod y byd naturiol, lleoliadau hanesyddol a safleoedd crefyddol a diwylliannol.
- Arsylwi a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol sy'n helpu dysgwyr i ddeall profiadau dynol.
- Ymweld ag addoldai lleol a lleoedd, tirweddau ac amgylcheddau arbennig eraill, gan gynnwys y rhai sydd â dimensiwn crefyddol ac ysbrydol sylweddol.
- Cwrdd â phobl y mae ffydd a chred yn bwysig iddynt i helpu dysgwyr i archwilio profiadau bywyd.
- Ymgysylltu â ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol, er enghraifft arweinwyr crefyddol, pobl ffydd a chred, athronwyr neu addoldai.

**Adran Dau: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) 'Gwrthrychol, Beirniadol a Phlwraliaethol'**

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod y gofynion cyfreithiol ynghylch crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) yn sylweddol wahanol i'r weithred ddyddiol o addoli ar y cyd (GDAC). Mae'n bwysig bod holl staff yr ysgol, ymwelwyr a lleoedd rydych chi'n ymweld â nhw, a phobl neu grwpiau rydych chi'n ymgysylltu â nhw yn cael eu hysbysu'n llawn o'r gofyniad cyfreithiol i CGM fod yn wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol. Rhaid ystyried hyn wrth gynllunio pob profiad dysgu CGM yn ogystal â phan fyddwch yn cynllunio eich darpariaeth cwricwlwm ac addysgu a dysgu ym maes CGM. Ym maes CGM, mae dysgwyr yn 'dysgu am' ac <u>nid</u> yn 'cymryd rhan mewn' ffydd a chred. Yn gyfreithiol, dylai CGM roi cyfleoedd i ddysgwyr <u>ddysgu am</u> gredoau/arferion/barn/gwerthoedd/barn foesegol/argyhoeddiadau athronyddol a byd-olwg pobl eraill, i fyfyrio ar eu rhai nhw eu hunain.

Rhaid i CGM hefyd fodloni'r gofyniad deddfwriaethol i gynnwys traddodiadau crefyddol yng Nghymru, sydd yn rhai Cristionogol gan fwyaf, ond sydd hefyd yn ystyried addysgu ac arferion crefyddol prif grefyddau eraill yng Nghymru, yn ogystal ag argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol. Mae hyn yn golygu, wrth gynllunio profiadau dysgu, fel ymweliadau ac ymwelwyr, bod yn rhaid i chi gynnwys amrywiaeth o wahanol grefyddau, canghennau/enwadau gwahanol o fewn crefyddau, ystod amrywiol o grefyddau, credoau ac amrywiaeth eang o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

**Adran Tri: Cwricwlwm a Darparwyr Allanol CGM**

Rhaid i ysgolion a lleoliadau gael eu hysbysu'n llawn o'r gofyniad cyfreithiol i fod yn 'wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol' yn eu cwricwlwm, eu haddysgu ac wrth asesu CGM.

Rhaid i CGM hefyd fodloni'r gofyniad deddfwriaethol i gynnwys traddodiadau crefyddol yng Nghymru, sydd yn rhai Cristionogol gan fwyaf, ond sydd hefyd yn ystyried addysgu ac arferion crefyddol prif grefyddau eraill yng Nghymru, yn ogystal ag argyhoeddiadau anghrefyddol. Mae hyn yn golygu, wrth ddylunio eich cwricwlwm, addysgu ac asesu ynghyd â phrofiadau dysgu CGM, er enghraifft ymweliadau ac ymwelwyr, rhaid i chi gynnwys amrywiaeth o wahanol grefyddau, canghennau/enwadau gwahanol o fewn crefyddau, ystod amrywiol o grefyddau ac amrywiaeth eang o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol. <u>Mae arweinwyr ysgolion yn gyfrifol yn gyfreithiol</u> am sicrhau bod unrhyw ddarparwyr cwricwlwm CGM allanol yn gweithredu o fewn y gofynion cyfreithiol hyn ar gyfer CGM. Mae'n bwysig bod aelod o staff/ymarferydd yr ysgol bob amser yn bresennol gyda'r ymwelydd/siaradwr/darparwr cwricwlwm CGM allanol, sy'n ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol hyn i CGM fod yn 'wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol' ac yn gallu sicrhau bod y profiad dysgu yn briodol.

Pan fydd ysgol yn defnyddio darparwyr allanol ac yn dirprwyo'r cwricwlwm CGM i asiantaeth, ymarferydd, elusen, sefydliad crefyddol, sefydliad anghrefyddol, ymgynghorydd neu grŵp allanol, yna rhaid i'r CGM fod yn 'wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol'. Yn gyfreithiol, ni ddylai CGM fod ag un traddodiad crefyddol

wedi'i gynrychioli yn unig neu un agwedd/enwad o draddodiad crefyddol fel cyfanrwydd o'i chwricwlwm CGM. Mae plwraliaeth yn ofyniad cyfreithiol, ac mae amrywiaeth yn thema drawsbynciol. Dylid ystyried hyn nid yn unig yn eich cynllunio ar gyfer profiadau dysgu, ond yn eich cwricwlwm, addysgu ac asesu CGM cyfan. Defnyddiwch Hwb i gael gwybodaeth.

**Adran Pedwar: Ymwelwyr â'r Ysgol ar Gyfer CGM**

Mae ymwelwyr â'r ysgol yn rhoi cyfle i ddysgwyr glywed y profiad byw o ffydd grefyddol ac anghrefyddol a chred o fewn y gymuned. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ystod o grefyddau a chredoau crefyddol/anghrefyddol. O'r herwydd mae ymwelwyr yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr a phwysig ac maent i'w hannog. Mae'n bwysig bod pob ymwelydd, siaradwr gwadd, neu grŵp allanol sy'n cael eu gwahodd i'r ysgol, yn cyfoethogi'r cwricwlwm a'r profiadau dysgu. Sicrhewch fod amrywiaeth eang o ymwelwyr o wahanol grefyddau, ffydd, credoau, sefydliadau, elusennau yn cael eu gwahodd i adlewyrchu'r blwraliaeth a'r amrywiaeth sy'n bodoli o fewn cred a ffydd.

Mae'n bwysig bod y rhai rydych chi'n eu gwahodd i'r ysgol yn gallu rhannu eu profiad byw ac ystyr eu cred, ffydd, gwerthoedd, barn foesegol, neu argyhoeddiadau athronyddol, ar eu cyfer. Gallai eu sgwrs gynnwys rhannu eu profiadau byw, trafod sut maen nhw'n ymarfer eu ffydd, beth mae eu ffydd yn ei olygu iddyn nhw a sut mae eu ffydd yn dylanwadu ar eu bywydau. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn rhoi'r wybodaeth o'r profiad dysgu hwn mewn cyd-destun i'r dysgwyr, cyn ac ar ôl yr ymweliad.

Efallai y bydd yr ymwelwyr hyn yn mynegi sut mae eu ffydd/cred yn iawn ac yn ystyrlon iddyn nhw, gan gydnabod a pharchu hefyd y gallai eraill weld pethau'n wahanol a dal barn gyferbyniol hyd yn oed os nad ydyn nhw'n tanysgrifio iddo, gan barchu amrywiaeth o safbwyntiau.

Gall ymwelwyr eraill fod yn gynrychiolwyr sefydliad neu elusen ac maent yno i siarad am waith yr elusen/sefydliad a sut mae gwaith y sefydliad/elusen yn cael ei ysbrydoli a'i lunio gan eu crefydd/ffydd/credoau.

Felly, sicrhewch fod yr ymwelydd/sefydliad yn ymwybodol nad yw siaradwr gwadd yr ysgol yno i annog dysgwyr yn ystod CGM, ond i gyflwyno eu credoau, arferion, gwerthoedd a phrofiadau byw drwy eu safbwynt eu hunain. Bydd gofyn i ymarferwyr ddarparu'r cyd-destun(au) a datblygu sgiliau'r dysgwr i ymgysylltu'n feirniadol ac yn wrthrychol â'r wybodaeth a gyflwynir ac a rennir.

Mae ymwelwyr posibl ar gyfer ymweliadau CGM yn cynnwys credinwyr crefyddol, arweinwyr ffydd, sefydliadau ffydd, elusennau, dyneiddwyr, anffyddwyr, amheuwyr ac eraill. Gellir dod o hyd i rai dolenni i sefydliadau posibl ar ddiwedd y canllawiau hyn.

**Adran 5: Paratoi ar gyfer ymwelwyr i'r ysgol**

Fel ymweliadau, mae angen cynllunio gofalus i drefnu i ymwelwyr gyfrannu at CGM neu addoli ar y cyd. Bydd y meini prawf a'r cynnwys ar gyfer cyfraniadau ymwelwyr yn wahanol ar gyfer addoli ar y cyd nag ar gyfer CGM. Mae'n bwysig bod yr ysgol a'r ymwelydd yn deall y gwahaniaeth hwn gan y gellir tynnu'r dysgwyr yn ôl o'r weithred ddyddiol o addoli ar y cyd (GDAC) ond ddim o wersi CGM. O ganlyniad, mae'n rhaid i wersi CGM fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol. Rhaid ystyried hyn wrth ddewis ymwelydd/darparwr allanol.

**Dewis Ymwelydd**
Gallai ymwelwyr gynnwys:
- Arweinwyr cymunedau ffydd/anghrefyddol.
- Aelodau cymunedau ffydd/anghrefyddol.

- Aelodau sydd â safbwyntiau a gwerthoedd anghrefyddol e.e. Humanists UK.
- Aelodau o sefydliadau lleol.
- Elusennau neu asiantaethau cymorth.
- Pobl sydd wedi ymweld â gwlad sydd ag arwyddocâd crefyddol neu foesol yn ddiweddar.
- Ymwelwyr rhyngwladol.

**Cynllunio'r ymweliad**

Sicrhau bod yr ymwelydd yn cael ei briffio ar y canlynol:

- Pwrpas yr ymweliad.
- Oedran/cam dysgu a gallu'r dysgwyr.
- Yr amser a neilltuir ar gyfer yr ymweliad a'r hyn rydych yn gobeithio y bydd yn cael ei gyflawni yn yr amser.
- Cyfarwyddiadau teithio a chynllun campws yr ysgol.
- Polisi amddiffyn plant a manylion y swyddog diogelu.
- 'Polisi Iechyd a Diogelwch' yr ysgol/lleoliad/Awdurdod Lleol.
- Sicrhewch fod yr ymwelydd yn ymwybodol na ddylid defnyddio ymweliad yr ysgol i osod ei farn bersonol ar ddysgwyr. Ni ddylai'r siaradwr bardduo ffydd, systemau cred na sefydliadau eraill i hyrwyddo eu ffydd.

Gall ymwelwyr o dramor ddod o wledydd lle gall disgwyliadau a phrofiadau addysgol fod yn wahanol. Os nad yw'n bosibl rhoi briff uniongyrchol ymlaen llaw, mae'n bwysig bod cyswllt lleol dibynadwy yn cymryd rhan sy'n gyfarwydd ag ymarfer ac sy’n gallu esbonio canllawiau a deddfwriaeth Cwricwlwm i Gymru a CGM mewn ysgolion yng Nghymru. Cyfrifoldeb yr ymarferydd/ysgol yw gwneud yr hyn a allant i sicrhau bod yr ymwelydd yn debygol o gynnig y profiad o'r ansawdd gorau rydych chi a'r dysgwyr yn ei ddisgwyl. Yn ddelfrydol, dylid cwrdd â'r ymwelydd yn bersonol neu’n rhithiol cyn yr ymweliad. Os oes amheuaeth, gofynnwch am gyngor aelod o'r gymuned neu'r sefydliad dan sylw.

**Paratoi Dysgwyr ar gyfer Ymwelwyr i Wers CGM**

Paratowch y dysgwyr fel bod yr ymweliad yn cael ei ddeall yn ei gyd-destun:

- Trafodwch gyda'r ymwelydd lle mae eu cyfraniad yn cyd-fynd â'r cynllun cwricwlwm cyffredinol.
- Anogwch y dysgwyr i baratoi cwestiynau i'w gofyn i'r ymwelydd.
- Atgoffwch y dosbarth am ymddwyn yn barchus tuag at ymwelwyr ac unrhyw arteffactau/adnoddau y gallent eu defnyddio.

**Diwrnod yr Ymweliad**

- Cynlluniwch y diwrnod yn ofalus i ganiatáu digon o amser i wneud unrhyw baratoadau e.e. trefnu'r ystafell ddosbarth, sefydlu offer ac ati.
- Trefnwch i le parcio car gael ei gadw (os oes angen), ac i berson dynodedig gwrdd â'r ymwelydd wrth gyrraedd, i gynnig lluniaeth neu gyfleusterau toiled yn ôl yr angen.
- Rhaid i'r ymarferydd aros yn yr ystafell ddosbarth yn ystod y wers; mae angen i'r ymarferydd fod yn rheoli'r sesiwn a gall annog dysgwyr neu'r siaradwr i sicrhau bod y drafodaeth yn berthnasol a bod amcanion yr ymweliad yn cael eu cyflawni.
- Ar ddiwedd y sesiwn, cofiwch ddiolch i'r ymwelydd a sicrhau eu bod yn cael eu hebrwng i'r dderbynfa i gofrestru allan ac fel y gallant adael yr adeilad yn ddiogel.
- Byddai llythyr/e-bost dilynol gan yr ymarferydd a'r dysgwyr yn cael ei werthfawrogi.

**Pwyntiau Cyffredinol**

- Fe'ch cynghorir i gadw cofnodion gofalus o'r holl ymwelwyr - nodwch y rhifau ffôn, cyfeiriadau a sut aeth yr ymweliad. Cofiwch basio unrhyw bwynt o ddiddordeb i ymarferwyr CGM eraill drwy eich clerc CYSAG/CYS.
- Efallai yr hoffech dynnu lluniau o'r sesiwn neu hyd yn oed wneud fideo (gyda chaniatâd GDPR), a dylid anfon hyn at eich clerc CYSAG/CYS lleol i rannu a dathlu'r CGM sy'n digwydd mewn ysgolion yn ein Hawdurdod Lleol. Sicrhau yr ymgynghorir â'r ymwelydd ymlaen llaw ynglŷn â'r mater hwn.

**Adran chwech: Ymweliadau â Lleoedd/Adeiladau/Cymunedau Allanol ar gyfer CGM**

Mae ymweliadau'n rhoi cyfle i ddysgwyr weld y profiad byw o ffydd grefyddol ac anghrefyddol a chred o fewn y gymuned. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ystod o grefyddau a chredoau a'r amrywiaeth sy'n bodoli ynddynt a rhyngddynt.

Mae lleoedd posibl ar gyfer ymweliadau CGM yn cynnwys lleoedd crefyddol ac anghrefyddol o ddiddordeb, megis, mannau pererindod, addoldai, arddangosfeydd, amgueddfeydd, mannau o arwyddocâd naturiol a gwyliau.

Dylai ymweliadau bob amser ddilyn yr un canllawiau ag ymwelwyr â'r ysgol o ran CGM. Dylai ymweliadau fod yn dysgu am gredoau, arferion, gwerthoedd, barn foesegol ac argyhoeddiadau athronyddol. Yn ystod ymweliadau, gall y siaradwr/tywysydd siarad am eu cymuned, eu hadeilad, eu credoau, eu harferion, eu gwerthoedd, eu gwaith neu brofiadau byw, sut maent yn ymarfer eu ffydd, beth mae eu ffydd yn ei olygu iddynt a sut mae eu ffydd yn dylanwadu ar eu bywydau. Felly, gwnewch yn siŵr bod y siaradwr yn ymwybodol nad ydynt yno i gyflwyno eu credoau, arferion, cymunedau, gofodau cysegredig, gwerthoedd a phrofiadau eu hunain neu’r gymuned trwy eu safbwynt eu hunain neu ar ran eu hamgylchedd cymunedol. Bydd gofyn i ymarferwyr ddarparu'r cyd-destun(au) a datblygu sgiliau'r dysgwr i ymgysylltu'n feirniadol ac yn wrthrychol â'r wybodaeth a gyflwynir ac a rennir, cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymweliad.

Pethau ychwanegol i'w hystyried wrth drefnu a rheoli ymweliadau ar gyfer CGM, y gallai fod angen i chi eu rhannu â dysgwyr/rhieni/gwarcheidwaid /gofalwyr, cyn yr ymweliad:

- Cod gwisg – Dylai dysgwyr ac ymarferwyr gael eu paratoi ymlaen llaw y gallai fod angen cod gwisg ar rai lleoedd e.e. gwisgo gorchudd pen, gorchuddio breichiau/coesau is neu dynnu esgidiau.
- Ymddygiad – mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol y byddai'n cael ei ystyried yn amharchus i fwyta, yfed, crwydro o gwmpas neu i ymgysylltu ag arteffactau heb wahoddiad neu oruchwyliaeth.
- Staffio - efallai y bydd gan rai lleoedd gymarebau ac anghenion staffio penodol. Dylid ystyried hyn cyn yr ymweliad.
- Mae symud yn dawel a pharchus yn hanfodol mewn rhai lleoedd, e.e. addoldai gan y gallai darfu ar weddi breifat.

**Paratoi ar gyfer Ymweliadau ag Adeiladau/Lleoedd/Cymunedau Allanol**

Fe'ch cynghorir i hysbysu neu ofyn am wybodaeth o'r lle/siaradwr ymweld allanol am y wybodaeth ganlynol cyn yr ymweliad, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd dysgu i bob dysgwr.

**Canllawiau Ymarferol ar gyfer Cynllunio Ymweliad**

**Paratoi**

- Rhaid i amcan yr ymweliad fod yn glir.
- Yr ymarferydd ddylai nodi pwrpas yr ymweliad, a'r hyn y disgwylir i'r dysgwyr ei ennill o'r profiad.
- Rhaid i'r profiad a'r hygyrchedd fod yn addas ac yn gynhwysol i'r holl ddysgwyr.

- Dylid cyfleu'r amcanion i'r gymuned/adeilad/lle yr ymwelir â nhw, fel y gall eu paratoadau fod yn briodol. Bydd gan rai cymunedau bobl sy'n gallu cymryd rhan weithredol yn yr ymweliad; efallai y bydd eraill yn llai hyderus ynghylch gwneud hynny neu beidio â bod yn ymwybodol o'r hyn a fyddai'n briodol ar gyfer Cwricwlwm Cymru, CGM a'r gofyniad cyfreithiol o CGM sef bod yn 'wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol'. Gwnewch yn siŵr bod y potensial i gymryd rhan yn cael ei ganfod a'i drafod ymlaen llaw.
- Anogwch y dysgwyr i greu eu cwestiynau eu hunain yr hoffent eu gofyn yn ystod yr ymweliad.
- Rhannwch fanylion oedran a cham dysgu'r dysgwyr.
- Trefnwch yr amser a neilltuwyd ar gyfer yr ymweliad.
- Gwiriwch am gyfarwyddiadau teithio a pharcio.
- Gofynnwch iddyn nhw ddarparu cynllun o'r adeilad/lle.
- Rhowch drosolwg i'r lle/person o bwrpas ymweliad yr ysgol o safbwynt yr ysgol/lleoliad.
- Darparwch drosolwg o wybodaeth a dysgu blaenorol y dysgwyr yng nghyd-destun yr uned waith (os ydynt yn darparu canllaw/siaradwr gwadd).
- Rhowch wybod sut mae'r ymweliad â'r lle/adeilad/cymuned yn cyd-fynd â'r cynllun gwaith cyffredinol/uned/pwnc/ymholi/cwestiwn mawr iddynt.
- Gwiriwch a sicrhewch fod y lle/adeilad/cymuned yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol ar gyfer CGM sef 'gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol'.
- Dylai'r ysgol/lleoliad wneud ymweliad ymlaen llaw i wirio'r holl fanylion, llenwi asesiad risg ac i baratoi'n llawn ar gyfer ymweliad yr ysgol/lleoliad.

**Cyn-ymweliad**

- Argymhellir ymweliad ymlaen llaw. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn gyfarwydd â'r lleoliad a gydag aelodau'r gymuned a fydd yn croesawu'r ymweliad.
- Yn ystod yr ymweliad hwn, gall ymarferwyr nodi eitemau o ddiddordeb penodol fel y gellir paratoi gweithgareddau neu lwybrau ar gyfer y dysgwyr ymlaen llaw.
- Gwnewch asesiad risg yn unol â pholisi'r ysgol a'r Awdurdod Lleol.
- Cod gwisg – dylai dysgwyr ac ymarferwyr gael eu paratoi ymlaen llaw y gallai fod angen cod gwisg ar rai lleoedd e.e. gwisgo gorchudd pen a thynnu esgidiau.
- Staffio - efallai y bydd gan rai lleoedd gymarebau ac anghenion staffio penodol. Dylid ystyried hyn cyn yr ymweliad.
- Ymddygiad - mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol y byddai'n cael ei ystyried yn amharchus i fwyta, yfed, crwydro o gwmpas neu i ymgysylltu ag arteffactau heb wahoddiad.
- Mae symud yn dawel a pharchus yn hanfodol mewn rhai lleoedd, e.e. addoldai gan y gallai darfu ar weddi breifat.

**Yr Ymweliad**

Dylai ymarferwyr sicrhau:

- Bod dysgwyr yn cael cyfle i fyfyrio a phrofi'r awyrgylch.
- Bod dysgwyr yn gyfranogwyr gweithredol yn ystod yr ymweliad. Dylid eu hannog i ymchwilio a darganfod pethau drostynt eu hunain.
- Bod yr ymweliad yn gallu bod yn brofiad amlsynhwyraidd – ystyriwch effaith bosib ar ddysgwyr sydd â her synhwyraidd.
- Bod dysgwyr yn cael eu goruchwylio'n ddigonol drwy’r amser.
- Bod yr asesiad risg a'r holl waith papur angenrheidiol (slipiau caniatâd, anghenion meddygol, cofrestrau ac ati) wrth law.
- Bod dysgwyr yn cael eu hannog i aros ar y dasg yn eu darganfyddiadau a'u hymchwiliadau.
- Bod dysgwyr yn cael eu hannog i gofnodi eu profiad a’r hyn y maent wedi’i ddysgu.

**Gwaith Dilynol**

- Yn ystod gwaith dilynol, bydd dysgwyr yn cael cyfle i ganolbwyntio ar agweddau ar yr hyn y maent wedi'i brofi.
- Mae dysgwyr yn archwilio cwestiynau pellach y maent wedi'u creu o'r ymweliad.
- Gall dysgwyr ymchwilio'n annibynnol i ddatblygu gwybodaeth bellach gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau.
- Gallant fynegi eu syniadau trwy gyflwyniadau, trafodaethau, cerddoriaeth a dawns, y celfyddydau a chrefft, chwarae rôl, barddoniaeth a rhyddiaith. Gallent hefyd rannu eu profiadau gydag eraill drwy wasanaeth ysgol, CYSAG/CYS Ieuenctid, podlediadau, blog fideo ac ati.
- Gallant fynegi eu diolch a'u gwerthfawrogiad i'r adeilad/lle/cymuned cynnal a rhoi adborth personol ar eu profiad, yr hyn y maent wedi'i ddysgu a'u heffaith ar y dysgu.

**Posibiliadau Creadigol wrth Baratoi neu fel Gwaith Dilynol**

- Efallai y bydd aelod o'r gymuned sydd â phrofiad o blant a phobl ifanc, yn gallu siarad â'r dysgwyr o'i ddealltwriaeth uniongyrchol am arteffactau, gwrthrychau, credoau, gwerthoedd neu foeseg allweddol.
- Efallai y bydd aelodau'n barod i gael eu cyfweld gan yr ymarferydd am y profiad personol sydd ganddynt o fod yn rhan o'u cymuned.
- Gallai dysgwyr greu ffilm am yr ymweliad/ymwelydd a'u cymuned (os yw'n briodol).
- Gellid defnyddio celf, cerddoriaeth a drama i ail-adrodd straeon, deall bywydau a hanes cymunedau, a sut maent yn ymwneud â'u bywydau bob dydd.
- Mae gan rai cymunedau gysylltiadau cryf â grwpiau tebyg ar draws y byd. Er enghraifft, mae rhai eglwysi yng Nghymru yn cymryd rhan mewn ymweliadau cyfnewid ag eglwysi/cymunedau byd-eang. Gan fod y cyfnewidiadau hyn yn aml yn cynnwys cymysgedd o weithgareddau cymdeithasol ac ysbrydol, gallai archwilio'r ymweliadau hyn agor maes astudio ehangach gan edrych ar sut mae ffydd yn dylanwadu ar ffordd o fyw.
- Efallai y bydd rhai cymunedau crefyddol ac anghrefyddol yn barod i ddangos defodau seremonïau taith, e.e. genedigaeth, dod i oed, priodasau.

**Gwerthusiad o'r Ymweliad**

Argymhellir bod yr ysgol/lleoliad yn cofnodi ac yn gwerthuso'r ymweliad a rhannu manylion gyda'ch CYSAG/CYS lleol drwy'r clerc (gweler yr e-bost ar ddiwedd y ddogfen hon) i'ch cynorthwyo i drefnu eich ymweliadau yn y dyfodol ac er budd ysgolion eraill.
Dylai gwerthusiadau gynnwys **llais** y **dysgwr** a'r **ymarferydd**.

Rhai pethau posibl i'w hystyried yn y gwerthusiad:

- Y pwynt cyswllt.
- Addasiadau asesu risg ar gyfer dilyniant.
- A oedd eu taflenni gwaith/Pwerbwyntiau/adnoddau ac ati ar gael ac yn briodol?
- Beth oedd eich amcan dysgu/diben yr ymweliad? Ydych chi wedi cyflawni hyn/rhain?
- Faint o ddysgwyr wnaethoch chi eu cymryd? Pa oedran/cyfnod? A oedd yn briodol i'w hoedran/cyfnod dysgu?
- Beth oedd y gymhareb staff disgwyliedig?
- Pa mor hir oedd yr ymweliad? Oedd hyn yn ddigon?
- 'WWW' (yr hyn aeth yn dda)/ 'EBI' (gwell fyth pe byddai)
- Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i rywun arall sy'n cynllunio ymweliad yno?
- A fyddech chi'n argymell y daith hon i ymarferwyr eraill? Pam?

**Adran Saith: Cysylltiadau Rhanbarthol ar gyfer Datblygu CGM**

Wrth ymchwilio ar gyfer cysylltiadau cymunedol, cenedlaethol neu ryngwladol ar gyfer CGM, **byddwch bob amser** yn ymwybodol o ofynion 'gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol'. Dylech bob amser wneud eich ymchwil eich hun. Efallai y bydd gan eich CYSAG/CYS lleol gysylltiadau ychwanegol ar gyfer cynrychiolwyr ffydd/cred leol. Cysylltwch â Chlerc y CYSAG/CYS i gael gwybod mwy.

Mae'r defnydd o ymweliadau, ymwelwyr a siaradwyr gwadd yn ychwanegu dimensiwn arall at CGM drwy roi cyfle i ddysgwyr brofi argyhoeddiadau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol fel rhan fyw o'r gymuned. Mae lleoedd posibl ar gyfer ymweliadau CGM yn cynnwys mannau crefyddol ac anghrefyddol o ddiddordeb, e.e. pererindod, addoliad, arddangosfeydd, amgueddfeydd, mannau o arwyddocâd naturiol a gwyliau (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr).

Isod mae rhestr o ymweliadau neu sefydliadau posibl a allai ddarparu ymwelwyr. Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Bydd llawer o bobl eraill hefyd yn gallu darparu cipolwg gwerthfawr, gwybodaeth a phrofiadau byw/bywyd.

Sylwch y gallai rhai o'r dolenni sy’n cael eu cynnwys yn y ddogfen hon gael eu torri neu eu dyddio dros amser ac felly efallai y bydd angen ymchwil bersonol.

**Ymwadiad - nid yw unrhyw enwau neu fanylion cyswllt ar gyfer addoldai, cynrychiolwyr cymunedau ffydd, a grybwyllir yma, yn cael eu cymeradwyo ac nid ydynt yn cael eu hyrwyddo gan yr awdurdod lleol na CYSAG/CYS. Ysgolion sy'n gyfrifol am benderfynu ar addasrwydd.**

**Ardal Pen-y-bont ar Ogwr**

Eglwys Gatholig y Santes Fair
https://catholicchurchbridgend.org.uk/
Eglwys Gatholig Maesteg
https://maestegcatholicchurch.org.uk/about-our-parishes/
Eglwys y Bedyddwyr Hope
https://www.hopebridgend.co.uk/
Eglwys y Santes Fair Nolton
https://penybont-churches.org.uk/churches/st-marys-nolton

Eglwys Freeschool Court
https://www.freeschoolcourt.org.uk/
Tabernacl Bracla
https://www.bracklatabernacle.org/

Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diwethaf
https://www.churchofjesuschrist.org/study?lang=cym

Crynwyr Pen-y-bont
https://bridgendquakers.org.uk/
Mosg Bilal Abercynffig Pen-y-bont ar Ogwr
39 Stryd Dunraven, Abercynffig, CF32 9AS (dim gwefan ar adeg ysgrifennu)
Teml Sri Kalpaga Vinayaka, Pen-y-bont ar Ogwr
Ffordd Pandy, Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 9PP (dim gwefan ar adeg ysgrifennu)

**Ardal Caerdydd**
Eglwys Gadeiriol Llandaf

V1.0
Archesgobaeth Gatholig
https://rcadc.org/
Eglwys y Santes Fair Forwyn Caerdydd
'Teithiau Cerdded Ffydd' Tre-biwt, Caerdydd
Eglwys Uniongred Groegaidd, Caerdydd
Shul Caerdydd
Synagog Diwygio Caerdydd
Cyn Synagog (Sefydliad y Ganolfan Treftadaeth Iddewig) Merthyr Tudful, CF47 0ER
Teml/Mandir Shree Swaminarayan, Caerdydd
Ty Krishna, Cymru
Lolfa'r Atma, Caerdydd
Sri Dasmais Singh Sabha Gurdwara Caerdydd
97 Stryd Tudor, Caerdydd CF11 6AE, 029 2022 4806
Canolfan Islamaidd De Cymru, Caerdydd
Stryd Alice, Caerdydd CF10 5LB
Mosg Dar-ul-Isra, Caerdydd
Neuadd y Sgowtiaid, 21-23 Heol Wyeverne, Caerdydd CF24 4BG
Canolfan Fwdhaidd, Caerdydd

**Cysylltiadau cenedlaethol ar gyfer datblygu CGM**

Gwefan Addysg yr Eglwys yng Nghymru, gan gynnwys eu Canllawiau ar gyfer CGM
Y Gwasanaeth Addysg Gatholig – Cymru
Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Sir Benfro
Abaty Belmont, Swydd Henffordd
Skanda Vale, Sir Gaerfyrddin
Mae Skanda Vale yn fan lle gall pobl o wahanol gefndiroedd a chrefyddau fyw, gweithio ac addoli gyda'i gilydd yn gytûn, mewn amgylchedd naturiol hardd.

Safleoedd pererindod yng Nghymru
https://sacredsiteswales.co.uk/sacred_sites_wales/
https://undiscovered-wales.co.uk/2020/05/13/holier-than-thou-the-welsh-pilgrimage-and-why-2020-might-be-the-time-to-make-one-to-wales/
http://www.penrhyspilgrimageway.wales/cym/
Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru
Mae'n llawn gwybodaeth ac mae ganddo adnoddau gwych i gefnogi CGM, gyda llawer o botensial ar draws a thu hwnt i MDPh y Dyniaethau.

Canolfan Treftadaeth Iddewig Genedlaethol Cymru (agor yn 2024)
Dyneiddiaeth Cymru

**Dolenni'r DU ar gyfer datblygu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)**

Eglwys Gadeiriol St Paul's, Llundain
Eglwys Gadeiriol Westminster, Llundain
Eglwys Gadeiriol Metropolitan Lerpwl
Mandir BAPS Shri Swaminarayan Mandir, Llundain (Teml Neasden)
Maenordy Bhaktivedanta – Teml Hare Krishna, Watford,
Bristol Baha'i, Bryste
Yr Amgueddfa Iddewig, Llundain
Amgueddfa Ryfel Ymerodrol, Llundain (Orielau'r Holocost)
Ymddiriedolaeth Mosg Canol Llundain Cyf. a’r Ganolfan Ddiwylliannol Islamaidd Llundain

V1.0
[Ymddiriedolaeth Pererindod Prydain]
[Historic England – 100 Lle: Ffydd a Chred]
[Deall Dyneiddiaeth – gwefan ar gyfer ymarferwyr]

Os bydd angen diweddaru unrhyw fanylion am gysylltiadau yn y canllaw hwn, rhowch wybod i glerc CYSAG/CYS fel y gall hynny gadw'r canllaw hwn mor gyfredol â phosibl er budd pawb sy'n ei ddefnyddio.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Clerc CYSAG/CYS, e-bostiwch: **edsu@bridgend.gov.uk**

**Adran Wyth: Rhestr Wirio Gryno**

**Adran Un -**

- ✓ Ymgysylltu â chymunedau crefyddol ac anghrefyddol lleol, cenedlaethol a byd-eang
- ✓ Ymweld ag addoldai lleol a lleoedd, tirweddau ac amgylcheddau arbennig eraill, gan gynnwys y rhai sydd â dimensiwn crefyddol ac ysbrydol sylweddol.
- ✓ Cynllunio ar gyfer dysgwyr i gwrdd â phobl y mae ffydd a chred yn bwysig iddynt i helpu dysgwyr i archwilio profiadau byw a bywyd.
- ✗ Osgoi defnyddio dull gwerslyfr 'un stori' tuag at ffydd, crefyddau a chredoau.
- ✗ Osgoi ymweliadau ac ymwelwyr oherwydd ofn neu ddiffyg hyder.

**Adran Dau – Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) 'Gwrthrychol, Beirniadol a Phlwraliaethol'**

- ✓ Mae holl staff yr ysgol, ymwelwyr a lleoedd rydych chi'n ymweld â nhw, a phobl neu grwpiau rydych chi'n ymgysylltu â nhw wedi'u hysbysu'n llawn o'r gofyniad cyfreithiol i CGM fod yn 'wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol'.
- ✓ I ddysgwyr 'fod yn dysgu am' yn hytrach na 'chymryd rhan mewn'.
- ✓ Cynnwys ystod o gyfleoedd i ddysgwyr archwilio gwahanol grefyddau, gwahanol ganghennau/enwadau o fewn crefyddau, ystod amrywiol o grefyddau, credoau ac amrywiaeth eang o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.
- ✗ Peidiwch â gadael y siaradwr gwadd ar ei ben ei hun gyda'r dysgwyr na'r dysgwyr ar eu pen eu hunain gyda thywysydd mewn man y maent yn ymweld ag ef. Efallai y bydd angen i ymarferwyr egluro neu ddarparu esboniadau/sylwadau ychwanegol.

**Adran Tri: Cwricwlwm a Darparwyr CGM Allanol**

- ✓ Rhaid i ysgolion a lleoliadau gael eu hysbysu'n llawn o'r gofyniad cyfreithiol i fod yn 'wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol' yn eu cwricwlwm, addysgu ac asesu CGM.
- ✓ Rhaid i CGM fodloni'r gofyniad deddfwriaethol i gynnwys traddodiadau crefyddol yng Nghymru, sef Cristionogaeth yn bennaf, ond sydd hefyd yn ystyried addysgu ac arferion crefyddol prif grefyddau eraill yng Nghymru, yn ogystal ag argyhoeddiadau anghrefyddol.
- ✓ Mae'n bwysig bod **aelod o staff yr ysgol/ymarferydd yn bresennol bob amser gyda'r darparwr cwricwlwm/ymwelydd/siaradwr CGM allanol**, sy'n ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol hyn i CGM fod yn 'wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol' ac sy'n gallu sicrhau bod y profiad dysgu yn briodol.
- ✗ Pan fydd ysgol yn defnyddio darparwyr allanol ac yn dirprwyo'r cwricwlwm CGM i asiantaeth, ymarferydd, elusen, sefydliad crefyddol, sefydliad anghrefyddol, ymgynghorydd neu grŵp allanol, yna rhaid i'r CGM fod yn 'wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol'. **Yn gyfreithiol, ni ddylai CGM fod ag un traddodiad crefyddol yn unig wedi'i gynrychioli nac un agwedd/enwad o draddodiad crefyddol ar gyfer y cwricwlwm CGM cyfan.**

**Adran pedwar: Ymwelwyr i'r Ysgol ar gyfer CGM**

- ✓ Sicrhau bod amrywiaeth eang o ymwelwyr o wahanol ffydd, crefyddau, credoau, sefydliadau, elusennau yn cael eu gwahodd i adlewyrchu'r plwraliaeth a'r amrywiaeth sy'n bodoli o fewn cred a ffydd. Gallai eu sgwrs gynnwys rhannu eu profiadau byw, trafod sut maen nhw'n ymarfer eu ffydd, beth mae eu ffydd yn ei olygu iddyn nhw a sut mae eu ffydd yn dylanwadu ar eu bywydau.
- ✓ Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn rhoi'r wybodaeth o'r profiad dysgu hwn yn ei chyd-destun i'r dysgwyr, cyn ac ar ôl yr ymweliad.
- ✓ Mae ymwelwyr yno i gyflwyno eu credoau, arferion, gwerthoedd a phrofiadau byw trwy eu safbwynt eu hunain.
- ✓ Mae ymarferwyr yn darparu'r cyd-destun(au) ac yn datblygu sgiliau'r dysgwr i ymgysylltu'n feirniadol ac yn wrthrychol â'r wybodaeth a gyflwynir ac a rennir.
- ✗ Nid yw'r siaradwr gwadd yno i 'wthio' syniadau ar ddysgwyr yn ystod CGM.

**Adran Pump: Ymweliadau â Lleoedd/Adeiladau/Cymunedau Allanol ar gyfer CGM**

- ✓ Cynllunio ar gyfer cyfleoedd i ddysgwyr weld y profiad byw o ffydd grefyddol ac anghrefyddol a chred o fewn y gymuned. Darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ystod o ffydd a chredoau a'r amrywiaeth sy'n bodoli oddi mewn iddynt a rhyngddynt.
- ✓ Mae lleoedd posibl ar gyfer ymweliadau CGM yn cynnwys lleoedd crefyddol ac anghrefyddol o ddiddordeb, megis mannau pererindod, addoldai, arddangosfeydd, amgueddfeydd, mannau o arwyddocâd naturiol a gwyliau.
- ✓ Dylai ymweliadau bob amser ddilyn yr un canllawiau ag ymwelwyr â'r ysgol yn CGM.
- ✓ Dylai ymweliadau fod yn dysgu am gredoau, arferion, gwerthoedd, barn foesegol ac argyhoeddiadau athronyddol. Yn ystod ymweliadau, gall y siaradwr/arweinydd siarad am eu cymuned, eu hadeilad, eu credoau, eu harferion, eu gwerthoedd, eu gwaith neu brofiadau byw, sut maent yn ymarfer eu ffydd, beth mae eu ffydd yn ei olygu iddynt a sut mae eu ffydd yn dylanwadu ar eu bywydau.
- ✓ Bydd gofyn i ymarferwyr ddarparu'r cyd-destun(au) a datblygu sgiliau'r dysgwr i ymgysylltu'n feirniadol ac yn wrthrychol â'r wybodaeth a gyflwynir ac a rannir, cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymweliad. Ni ddylid gadael dysgwyr ar eu pennau eu hunain.
- ✓ Ystyried - cod gwisg, ymddygiad, gwaith papur asesiad risg yr Awdurdod Lleol, staffio, bod yn barchus i addolwyr/credinwyr/ymwelwyr eraill.
- ✗ Peidiwch â gadael dysgwyr ar eu pennau eu hunain.

**Adran Chwech: Cysylltiadau Rhanbarthol ar gyfer Datblygu CGM**

- ✓ Cynnal eich ymchwil eich hun a pharatoi llawn gyda'r gymuned leol a mannau addoli/diddordeb ysbrydol.
- ✓ Cysylltu â Chlerc CYSAG/CYS i ofyn am gymorth gydag ymweliadau ac ymwelwyr CGM lleol.
- ✓ Rhannu profiadau cadarnhaol o ymweliadau ac ymwelwyr â CYSAG/CYS i'w rhannu ag ysgolion/lleoliadau eraill. Gall CYSAG/CYS ddiweddaru'r rhestrau awgrymiadau rhanbarthol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Clerc CYSAG/CYS, e-bostiwch: **edsu@bridgend.gov.uk**